Mudiad Ysgolion Meithrin

Cynllun y Cylch Rhagorol

Adroddiad ar Gylch Meithrin

Camau Tirion, Llanelli.

Cyfeiriad: Heol Goffa, Llanelli, Sir Gaerfyrddin.SA15 3EJ

Ffôn: 01554 770 660

Arweinyddion: Kathryn Jones a Cari Griffiths

Rheolwr: Miranda Williams

Arolygydd: Nesta Jones

Dyddiad yr Arolwg: 11.02.11

GWYBODAETH GYFFREDINOL AM Y CYLCH MEITHRIN

Ardal:
Tref fwyaf Sir Gaerfyrddin yw Llanelli; tref a arferai fod yn adnabyddus am ddiwydiannau trwm. Ers blynyddoedd bellach diflannodd llawer o'r diwydiannau hynny a cymerwyd eu lle gan amrywiaeth o fusnesau a diwydiannau bychain er bod gwaith dur Trostre yn dal i gyflogi llawer. Ar un adeg, yr iaith Gymraeg a glywyd bennaf ar strydoedd y dref ond mae pethau wedi newid erbyn hyn a'r Gymraeg wedi encilio. Serch hynny mae'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Chymreictod yn amlwg iawn a rhieni am adennill peth o'r tir a gollwyd drwy sicrhau addysg Gymraeg i'w plant gan ddechrau yn y cylch meithrin. Mae ysgolion Cymraeg y dref yn orlawn ac mae'r cylchoedd meithrin sy'n eu bwydo yn gwneud gwaith penigamp. Mae'r cylch meithrin hwn, sydd wedi ei leoli ym Meithrinfa Ddydd Camau Tirion yn un ohonynt.

Nifer Plant: 8

Cefndir ieithyddol: Pedwar o'r plant sydd â'r Gymraeg yn famiaith.

Math o adeilad:

Arferai'r adeilad fod yn swyddfeydd ond fe'i trawsnewidiwyd ar gyfer ei swyddogaeth newydd fel meithrinfa ddydd. Cwblhawyd y gwaith i'r safon uchaf gan sicrhau adeilad ac adnoddau o'r radd flaenaf. Mae wedi ei leoli mewn man cyfleus o fewn cyrraedd y dref a'r M4. Mae'r adeilad yn eang gyda derbynfa , ystafelloedd dosbarth, swyddfa a chegin. Yn ogystal mae lle chwarae tu allan yn arwain o'r ystafell ddosbarth. Darperir ystafell ar wahân y tu allan hefyd i chwarae gyda dwr a thywod ac ar gyfer paentio a gwaith celf a chrefft. Mae lle i barcio a mynedfa i'r anabl.

DYFARNIAD YR AROLWG:

- Mae **Cylch Meithrin Camau Tirion** yn ennill statws **Cylch Meithrin Rhagorol** a dyfernir Sêl y Cylch Rhagorol iddo. Bydd y Sêl yn ddilys am dair blynedd.

POBL
SYLWADAU CYFFREDINOL

Profiadau, sgiliau, cymwysterau a datblygiad staff:
Kathryn Jones a Cari Griffiths yw arweinyddion y cylch meithrin. Mae'r ddwy yn raddedig o Goleg y Drindod, wedi arbenigo yn addysg Y Blynyddoedd Cynnar. Bu Kathryn yn gweithio yn y cylch ers iddo agor 7 mis yn ôl ac ymunodd Cari â hi 4 mis yn ôl. Mae'r ddwy yn gwbl rhugl yn y Gymraeg. Er eu bod wedi eu cymhwyso'n briodol ar gyfer y gwaith maent yn awyddus i ddysgu am y newidiadau a'r datblygiadau diweddaraf ym maes addysg y Blynyddoedd Cynnar ac yn awyddus i wella eu sgiliau. I'r perwyl hwn maent yn manteisio ar y cyrsiau a gynigir iddynt ac yn eu mynychu. Maent yn byw yn yr ardal ac felly yn gartrefol iawn yn y cylch. Sylwais bod Kathryn a Cari yn cydweithio'n hyfryd gyda'i gilydd; maent yn deall ei gilydd i'r dim, yn cydgynllunio, trefnu gweithgareddau, ac asesu a chofnodi cynnydd. Maent yn gyfarwydd â pholisïau Mudiad Ysgolion Meithrin ac yn ceisio eu gweithredu. Agwedd gadarnhaol sydd ganddynt at eu gwaith a lles y plant sydd bwysicaf.

Perthynas y staff a'r plant:
Mae'n amlwg bod y staff wrth eu bodd yng nghwmni'r plant.
Caiff pob plentyn ei groesawu'n gynnes i'r cylch a'i gyfarch wrth ei enw. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu cryfderau a'u hanghenion. Maent yn annwyl gyda'r plant ac yn eu trin a gofal a pharch. Maent yn ymateb yn syth i blentyn mewn angen. Caiff y plant eu canmol yn gyson. Mae'r plant yn hyderus gyda'r staff a gyda'i gilydd. Cânt amser i fynegi eu hunain ac i gwblhau tasg. Mae'r staff a'r plant yn cael llawer o hwyl yng nghwmni ei gilydd.

Partneriaeth gyda rhieni a gofalwyr:
Dros y saith mis diwethaf datblygodd perthynas glos rhwng y staff a'r rhieni. Mae croeso i'w plant yn y cylch beth bynnag fo eu hiaith, hil, crefydd neu eu hanabledd. Mae croeso iddynt drafod datblygiad eu plant ar unrhyw adeg cyfleus a derbyniant adroddiad manwl gan nodi datblygiad y plentyn yn y chwe maes dysgu ar ddiwedd pob tymor. Anogir y rhieni i gymeryd diddordeb yng ngwaith y cylch. Cyn i'w plant ddechrau yn y cylch, cânt becyn cynhwysfawr o wybodaeth am y cylch a'r polisïau a weithredir yno. Ceisia'r staff gydweithio gyda rhieni er lles eu plant. Rhoddir digon o rybudd i rieni am gyfarfodydd a digwyddiadau sy'n ymwneud â'r cylch.

Perthynas ag eraill:
Mae'r cylch meithrin yn rhan bwysig iawn o Meithrinfa Ddydd Camau Tirion.
Yn y misoedd ers ei sefydlu gwnaed ymdrech i feithrin perthynas dda gyda'r ysgolion cyfagos , yn arbennig gydag Ysgol Gymraeg Dewi Sant i ble yr â y rhan fwyaf o'r plant. Nid yw'r cylch yn fewnblyg; manteisia ar gyfleoedd i helpu rhai llai ffodus drwy godi arian i elusennau eraill megis Plant mewn Angen a'r uned yng Nghaerdydd i blant a ddioddefodd anaf i'r ymennydd. Mae'r cylch yn ceisio codi ei broffil o fewn ardal ehangach drwy anfon adroddiadau am weithgarwch y cylch i`r papur lleol.
Bydd y cylch hefyd yn croesawu staff Mudiad Ysgolion Meithrin. Os bydd plentyn ag anghenion arbennig bydd y cylch yn cydweithio gyda phobl broffesiynol er lles y plentyn.

Rheolaeth:
Yn gefn i'r staff mae rheolwr cryf ac ymroddgar sy'n gweithio er budd y plant. Mae yn awyddus i'r staff wella eu sgiliau a'u cymwysterau ac yn ceisio hwyluso hynny drwy eu hanfon ar gyrsiau cydnabyddedig. Mae'r rheolwr yn deall egwyddorion Mudiad Ysgolion Meithrin ac yn eu cefnogi. Mae Miranda yn cynnal cyfarfodydd cyson gyda Kathryn a Cari er mwyn sicrhau bod y cylch yn rhedeg yn hwylus.

MATERION I WELLA ARNYNT

Perthynas gyda rhieni a gofalwyr:
Mae'n bwysig bod rhieni yn cael gwybodaeth am ethos a pholisïau Mudiad Ysgolion Meithrin yn y pecyn cyflwyno. Dylid pwysleisio'r berthynas â'r Mudiad drwy ddarparu taflenni am y cylchoedd Ti a Fi, Twf, Mabon a Mabli ayb. Byddwn yn eich hannog hefyd i ymuno yn yr Ŵyl Feithrin eleni gan gymell rhieni i ymuno yn yr hwyl.

AMGYLCHEDD
SYLWADAU CYFFREDINOL

Gwerthoedd ac ethos:
Mae gan y cylch ddatganiad o werthoedd, nodau ac amcanion clir sy'n gydnaws â'r arfer gorau mewn addysg y blynyddoedd cynnar, ac mae nhw yn cael eu gweithredu. Caiff y plant eu croesawu i'r cylch lle mae naws Cymreig hyfryd. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda heb i'r staff orfod codi eu llais. Plant hapus a hyderus welais i yn y cylch yn mwynhau eu hunain mewn awyrgylch strwythuredig a threfnus.

Polisïau, gweithdrefnau a gweinyddiaeth:
Mae cylch meithrin Camau Tirion yn aelod llawn o Fudiad Ysgolion Meithrin ac wedi ei gofrestru gydag ASGC. Mae gan y cylch ystod lawn o bolisïau perthnasol. Mae gan y cylch gofrestr, a threfn addas o gofnodi digwyddiadau a damweiniau. Mae'r cylch yn darparu'n briodol ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Mae nodiadau ar y plant yn gyfredol ac yn cael eu cadw mewn man diogel.

Lleoliad:
Mae'r adeilad wedi ei addasu yn briodol ar gyfer holl ofynion y cylch meithrin. Darperir dwy ystafell ar gyfer y plant, un ohonynt yn ystafell dawel ar gyfer stori, edrych ar lyfrau, ysgrifennu ayb. a'r llall ar gyfer adeiladu, darganfod a gweithgareddau bwrdd a llawr. Yn ogystal mae ystafell ychwanegol tu allan lle bydd y plant yn paentio a gwneud gwaith celf a chrefft. Mae'r ystafelloedd i gyd yn lân, cynnes a golau a'r waliau wedi eu haddurno'n hyfryd gyda gwaith y plant a phosteri lliwgar. Gosodwyd corneli amlwg, deniadol lle gall y plant fwynhau a dysgu. Mae lle chwarae tu allan a gall y plant fanteisio ar hwn yn ddidrafferth. Trefnwyd gardd fach hefyd sydd yn fanteisiol iawn i ddatblygiad a mwynhad y plant. Mae lle preifat i siarad gyda rhieni a digon o le i storio offer.

Adnoddau:
Mae gan y cylch ystod eang o adnoddau addas mewn cyflwr da. Cânt eu dethol yn ofalus ar gyfer gweithgareddau'r dydd er mwyn hybu mwynhad a chyfleoedd dysgu'r plant. Mae'r celfi mewn cyflwr da. Mae'r adnoddau'n gydnaws â hybu cyfle cyfartal ac ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill.

PROFIADAU
SYLWADAU CYFFREDINOL

Cynllunio:
Mae maes llafur y cylch wedi ei seilio'n gadarn yn y chwe maes dysgu. Cynllunia'r staff yn ofalus ar gyfer gwaith y tymor gan dalu sylw manwl i'r gweithgareddau ffocws. Cynlluniant fel bod pob plentyn yn cael ystod eang a chytbwys o brofiadau dros gyfnod o amser. Asesir y cynllun yn gyson a chaiff ei addasu yn ôl y gofyn.

PROFIADAU - Y CHWE MAES DYSGU

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu:
Mae digon o lyfrau addas mewn cyflwr da o fewn cyrraedd y plant. Caiff y plant stori ddyddiol yn yr ystafell dawel a honno'n cael ei hadrodd mewn modd ddifyr a'r plant yn ymateb yn hwyliog. Stori gyfarwydd Elen Benfelen adroddwyd ar fore fy ymweliad a does dim rhyfedd i'r plant fwynhau gan iddynt gael cyfle i flasu uwd blasus yr un fath ag Elen – da iawn chi. Roeddwn wrth fy modd yn gwrando ar Kathryn a Cari yn siarad yn gyson â'r plant gydol y bore a hynny mewn Cymraeg rhywiog. Daliwch ati i drochi'r plant bach yn yr iaith. Mae'r ddwy yn rhoi pob cyfle i'r plant sgwrsio gyda hwy a gyda'i gilydd ac i wrando ar gyfarwyddiadau ac ymateb iddynt. Anogir y plant i adnabod eu henwau. Caiff y plant gyfle i ymarfer ysgrifennu wrth fwrdd yn llawn offer addas. Hoffais yr arddangosfa fach o'i gwaith. Mae cyfle i'r plant chwarae rôl. Rhoddir y pwyslais priodol ar ganu ;drwy ganu rhigymau a phenillion sy'n ailadrodd mae'r plant bach di Gymraeg yn caffael yr iaith – ac yn mwynhau. Gwaith da iawn.

Datblygiad personol a chymdeithasol:
Mae'r staff yn annog y plant i feithrin perthynas dda gyda hwy a'r plant eraill. Dysgir y plant sut i ymdawelu a chanolbwyntio. Mae'r staff yn canmol y plant yn gyson. Caiff y plant eu dysgu sut i drin siom a rhwystredigaeth a sut i ymddwyn yn sensitif a chyda pharch at eraill. Arfer dda yw dysgu'r plant i dacluso a chymeryd gofal o'r offer yn yr ystafell. Maent yn dechrau deall bod rhai plant yn llai ffodus na hwy drwy helpu i godi arian ar gyfer plant anghenus. Gwaith da iawn yn y maes hwn.

Datblygiad mathemategol:
Clywir iaith fathemategol yn ystod y sesiwn. Arddangosir posteri mathemategol a rhifolion. Darperir toreth o adnoddau mathemategol i'r plant. Cânt bob cyfle i sylwi ar siâp a maint yn ystod eu chwarae. Anogir hwy i ddatrys problemau sy'n codi yn naturiol yn ystod eu chwarae. Maent yn dechrau deall pwrpas arian. Gwaith da iawn.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd:

Caiff y plantos bob cyfle i ddysgu am y byd mawr o'u cwmpas; mae'r bwrdd darganfod a'r Asiant Teithio yn adnoddau da yn y rhan yma o'r cwricwlwm. Anogir hwy i siarad am eu cartrefi a'r ardal. Roedd yn dda gen i weld bod rhan helaeth o'r bore wedi ei dreulio tu allan. Nid yn unig roedd y plantos bach wrth eu bodd allan yn yr awyr iach ond hefyd daethant yn fwy ymwybodol o'r tywydd – llawer iawn gwell nag edrych ar siart dywydd yn y dosbarth. Wrth weithio yn yr ardd fach, eto dysgant sut mae pethau'n tyfu, am y tymhorau a'r tywydd ac am yr amgylchfyd a phwysigrwydd gofalu amdano. Dysga'r plant am dreigl amser ac maent yn dechrau deall trefn y bore. Yn ôl yr hyn a welais ar y wal o waith y plant, a nifer o luniau, mae'n amlwg eu bod yn cael digon o gyfle i arbrofi gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau. Bwriedir gwahodd aelodau o'r gymuned i siarad â'r plant o bryd i'w gilydd – arfer da iawn. Hefyd bwriedir trefnu ymweliadau â llefydd diddorol. Gwaith da iawn.

Datblygiad corfforol:

Rhoddir pob cyfle i'r plentyn unigol ddatblygu ei sgiliau modur mawr a mân drwy ddarparu offer priodol ar ei gyfer. Mae'r plant yn mwynhau gwersi ymarfer corff. Dysgant sut i symud mewn ffyrdd amrywiol. Caiff y plant gyfle bob dydd i ymdawelu ac i fod yn llonydd. Rhoddir pwyslais ar hylendid personol a bwyta'n iach. Gwaith da iawn.

Datblygiad creadigol:

Rhoddir pob cyfle i'r plant bach fynegi eu hunain yn greadigol mewn sawl dull. Cânt gyfleoedd i arbrofi gyda phaent ac amrywiaeth o ddeunyddiau. Bydd y staff yn canmol gwaith y plant ac yn ei arddangos yn chwaethus ac felly yn creu hunan hyder a balchder ynddynt. Caiff y plant gyfle i ganu, i greu ac i symud i gerddoriaeth ac mae ganddynt ystod dda o offerynnau cerdd. Mae cyfle i goginio yn achlysurol a'r cyfan yn sicrhau datblygiad cadarn yn y maes hwn. Gwaith da iawn.

Ansawdd yr addysgu:

Manteisia'r staff ar bob cyfle i hybu dysgu y plentyn unigol. Rhoddant bwyslais ar fagu hunanhyder a hunan-barch. Nid yw'r staff yn ymyrryd yn amhriodol yn chwarae'r plant, nac yn eu rhuthro i gwblhau tasgau. Yn hytrach byddant wrth law yn annog, cymell, monitro, awgrymu a llywio'n sensitif ymdrechion y plant. Nid yw'r staff yn gosod tasgau sy'n rhy anodd i'r plant. Manteisiant ar bob cyfle i gyfoethogi dysgu'r plant. Canmolaf y staff am eu gwaith trylwyr.

Asesu a chofnodi cynnydd:

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gwybod beth yw anghenion y plentyn unigol. Maent yn arsylwi a monitro'r plant yn gyson ac yn cofnodi eu cynnydd. Caiff rhieni gyfle i drafod datblygiad eu plant ar unrhyw amser cyfleus. Caiff rhieni adroddiad ysgrifenedig manwl yn nodi datblygiad eu plant yn y chwe maes dysgu.

MATERION I WELLA ARNYNT

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd:

Hoffwn i chi dalu mwy o sylw i'r Asiant Teithio er mwyn ei wneud yn fwy deniadol i'r plant. Byddai posteri mwy o faint yn drawiadol ond gwell fyth fyddai gwaith y plant yn gorchuddio'r wal a wyneb y siop. Wrth i'r gwanwyn a'r haf agosáu rwy'n eich cymell i drefnu ymweliadau â rhai o'r llefydd diddorol niferus sydd o fewn cyrraedd y feithrinfa. Mae mynd â'r plant allan ar ymweliadau o'r fath yn bwysig iawn.

Unrhyw sylwadau eraill:
Mwynheais yn fawr fy ymweliad â chylch meithrin Camau Tirion. Cefais groeso cynnes gan y staff i gyd , ac wrth gwrs y plant. Treuliais fore hyfryd yn sylwi ar yr holl weithgareddau. Mae gwaith da iawn yn cael ei gyflawni gan y staff sydd wedi ymroi i ddatblygiad y plant bach. Mantais i'r ysgolion Cymraeg lleol ac i dref Llanelli yw cael meithrinfa Gymraeg ar y trothwy. Mae'r cylch sy'n rhan ohoni yn llawn haeddu Sêl y Cylch Rhagorol. Gosodwyd sylfaen dda – daliwch ati. Dymunaf pob hwyl yn y dyfodol.

Nesta Jones

Dymuna Mudiad Ysgolion Meithrin ddiolch i'r Rheolwraig, y staff a rhieni Cylch Meithrin Camau Tirion am gydweithredu gyda'r Arolygydd yn ystod yr arolwg hwn.